

Y Bwrdd Llywodraethwyr			
Datganiad ar ddefnyddio Data Meincnodi / Cymharol			
Adran	Y Bwrdd Llywodraethwyr		
Awdur	Clerc y Bwrdd / Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr		
Awdurdodwyd gan:	Y Bwrdd Llywodraethwyr		
Gweithredir gan:	Y Llywodraethwyr, Swyddogion Gweithredol		
Cyfeirnod:	STABOG2021052		
Yn adnewyddu:	Amherthnasol		
Fersiwn rhif:	1	Pwyllgor Cymeradwyo:	Bwrdd yr Is-Ganghellor Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu 10/12/20 Y Bwrdd Llywodraethu 5/3/21
5/3/21	Mawrth 2021	Cofnod rhif:	20.39.02 20.14.03 20.60.01
Statws:	Cymeradwywyd	Dyddiad gweithredu:	Mawrth 2021
Cyfnod cymeradwyo:	3 blynedd	Dyddiad adolygu:	Mawrth 2024

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae meincnodi yn arfer cyffredin ac yn ymarfer synhwyrol i sefydlu llinell sylfaen, diffinio arferion gorau, adnabod cyfleoedd gwella a chreu amgylchedd cystadleuol mewn sefydliad. Ar ei orau gellir ei ddefnyddio fel teclyn i gynorthwyo'r Brifysgol werthuso a blaenoriaethu cyfleoedd gwella.
- 1.2 Mae meincnodi yn canolbwyntio ar fesurau fel ansawdd, amser, costau ac effeithiolrwydd; ac mae'n broses barhaus sy'n cynorthwyo i adnabod materion perfformiad posibl. Mae nifer o ffurfiau meincnodi a gellir eu categorio mewn ffyrdd amrywiol, ond mae'r Brifysgol yn defnyddio'r rhai isod yn bennaf:
- Meincnodi mewnol:** sy'n cynnwys y Brifysgol yn cymharu ei pherfformiad mewn meysydd penodol gyda'r un data o flynyddoedd blaenorol a/neu faes arall yn y Brifysgol.
 - Meincnodi allanol:** sy'n cynnwys cymharu sefyllfa'r Brifysgol yn y sector Addysg Uwch yn gyfan neu gyda rhan o'r sector er mwyn adnabod targedau perfformiad sy'n arwain y sector. Mae hyn yn cynorthwyo i hysbysu'r Brifysgol a yw'r targedau perfformiad mewnol a chyflawniadau'n gymharol, yn well neu'n waeth na'i chystadleuwyr neu'r sector cyfan.
- 1.3 Mae'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ([HESA](#)) yn casglu, dadansoddi, sicrhau ac yn cyhoeddi gwybodaeth am Addysg Uwch y Deyrnas Unedig ac mae'n ffynhonnell data defnyddiol ar gyfer cymharu perfformiad y Brifysgol ar draws gwahanol gategorïau: ar draws y Deyrnas Unedig, Cymru, chwarteli, prifysgolion maint tebyg neu'n meddu ar nodweddion tebyg.
- 1.4 Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn cyhoeddi [Pecyn Gwybodaeth i Lywodraethwyr](#) o dro i dro, ac mae'n cael ei adolygu gan y Bwrdd Llywodraethwyr pan

gaiff ei gyhoeddi. Mae hwn yn darparu cymhariaeth sy'n edrych yn ôl ar berfformiad Prifysgolion Cymru, ar sail data HESA, ynghylch iechyd ariannol, myfyrwyr ac ansawdd, gwaith ymchwil a throsglwyddo gwybodaeth, cydraddoldeb ac amrywiaeth ac ystadau.

1.5 Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi sefydlu set o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n gysylltiedig gyda Gweledigaeth a Strategaeth 2025 y Brifysgol. Lle bo'n ddichonadwy ac yn briodol, darperir data meincnodi allanol, yn ogystal â data mewnol, yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol i'r Bwrdd i asesu perfformiad yn y cyd-destun ehangach yn ogystal ag yn erbyn targedau mewnol a pherfformiad blaenorol.

2. DATA MEINCNODI

2.1 Sefydlwyd y setiau data isod ar gyfer y Bwrdd Llywodraethwyr i gynorthwyo gyda gwerthuso effeithiol gwir berfformiad a pherfformiad cymharol y Brifysgol.

Math o adroddiad	Natur y meincnodi	Amllder ac amseru
Adroddiad Rheolaeth Ariannol	<p>Mewnol: dangosyddion perfformiad a thargedau'n ymwneud â gwarged (diffyg) gweithredol, cynhyrchu hylifedd arian parod, balansau yn y banc a chostau staff.</p> <p>Allanol: Meincnodi Datganiadau Ariannol Addysg Uwch (Archwilwyr Allanol)</p>	<p>Ym mhob cyfarfod y Bwrdd</p> <p>Yn flynyddol (Gwanwyn)</p>
Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol	<p>Mewnol: dangosyddion perfformiad a thargedau'n gysylltiedig gyda Gweledigaeth a Strategaeth 2025 yn ymwneud â:</p> <ul style="list-style-type: none"> <i>Addysgu sy'n ysbrydoli</i> – canlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol, cyflogadwyedd a niferoedd myfyrwyr cyffredinol <i>Ymchwil sy'n gweddnewid</i> – cyfran y staff gyda doethuriaethau a lefel yr incwm ymchwil, cydweithredu a chytundebau <i>Ymgysylltu sy'n galluogi</i> – niferoedd myfyrwyr rhyngwladol, niferoedd/incwm myfyrwyr addysg trawswladol ac incwm mentrau ac ymgynghoreiaeth <i>Strwythur sy'n cynnal</i> – gwarged/diffyg gweithredol, cyflawni yn erbyn amcanion Campws 2025 a throsgiant staff. <p>Allanol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <i>Addysg sy'n ysbrydoli:</i> Canlyniadau Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol ar gyfer y Deyrnas Unedig a Chymru (pob cwestiwn) a'r arolwg Canlyniadau Graddedigion ar gyfer y Deyrnas Unedig a Chymru – canran mewn gwaith neu astudiaethau pellach yng Nghymru a chyflogaeth lefel graddedig <i>Ymgysylltu sy'n galluogi:</i> incwm mentrau ac ymgynghoreiaeth – data Arolwg HEBCIS <i>Strwythur sy'n cynnal:</i> trosiant staff – data adroddiad gweithlu UCEA. 	Yn flynyddol (Hydref)
Cadw myfyrwyr	<p>Mewnol: perfformiad blynyddoedd blaenorol y sefydliad</p> <p>Allanol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyfraddau parhad Prifysgolion maint tebyg Cyfraddau parhad Prifysgolion gyda phroffil 	<p>Ym mhob cyfarfod y Bwrdd</p> <p>Yn flynyddol (Haf)</p>

Math o adroddiad	Natur y meincnodi	Amllder ac amseru
	tebyg o ran ehangu cyfranogiad <ul style="list-style-type: none"> Myfyrwyr gradd gyntaf amser llawn sy'n parhau neu'n cymhwyso gyda'r un Darparydd Addysg Uwch y flwyddyn yn dilyn dechrau eu cwrs 	
Recriwtio myfyrwyr	Mewnol: perfformiad blynyddoedd blaenorol y sefydliad Allanol: data ymgeisio UCAS a chystadleuwyr UCAS	Yn ystod y gylchred recriwtio – tri chyfarfod y Bwrdd y flwyddyn.
Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol	Mewnol: perfformiad blynyddoedd blaenorol y sefydliad yn gyffredinol ac ar draws yr holl gwestiynau Allanol: sector Addysg Uwch – y Deyrnas Unedig, chwarterl uchaf y Deyrnas Unedig, Cymru a meincnodi HESA yn erbyn yr holl gwestiynau.	Yn flynyddol (Haf)
Canlyniadau Graddedigion	Mewnol: perfformiad blynyddoedd blaenorol y sefydliad Allanol: sector Addysg Uwch – y Deyrnas Unedig a Chymru: cyfraddau ymateb, dull a lefel gweithgareddau, grwpiau pynciau, galwedigaethau a chyflogau graddedigion.	Yn flynyddol (Haf) o 2020
Adroddiad Ystadau Blynyddol	Mewnol: perfformiad blynyddoedd blaenorol y sefydliad o ran ynni a chynaliadwyedd – defnydd dŵr, allyriadau carbon, ailgylchu gwastraff, costau ynni a lleihau defnydd ynni. Allanol: cyflwr yr ystad, costau cynnal a chadw a rheoli gwastraff.	Yn flynyddol (Hydref)

3. Adolygu

3.1 O ganlyniad i'r Ymrwymadau Gweithredu yn deillio o'r Adolygiad Llywodraethu yng Nghymru (Camm) rhoddwyd tasg i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru benderfynu ar set data cyffredin isafswm ar gyfer yr holl brifysgolion yng Nghymru i'w mabwysiadu gan bob sefydliad. Bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu pan fydd y dasg honno wedi'i chwblhau.

Diwedd